CA2 – Llwybr Darganfod

AMCAN

Dysgu am amrywiaeth eang o fywyd gwyllt a'u parchu.
Annog agwedd bositif tuag at yr amgylchedd yr ydym yn byw ynddo.

NODAU

Gallu adnabod amrywiaeth eang o fywyd gwyllt
Defnyddio'r synhwyrau i edrych ar gynefinoedd amrywiol
Deall bod yr amgylchedd lleol yn gartref i lawer o greaduriaid a phlanhigion
Datblygu parch at yr amgylchedd naturiol

CYSYLLTIADAU'R CWRICWLWM

Celf a Dylunio 1. Edrych ar syniadau a'u datblygu
Dinasyddiaeth 5a Derbyn cyfrifoldeb
Cymraeg EN1 Siarad a Gwrando
EN3 Ysgrifennu
Daearyddiaeth 2. Ymchwilio a sgiliau.
5. Newid Amgylcheddol a Datblygiad Cynaladwy.
Gwyddoniaeth 2. Prosesau Byw a Phethau Byw
ESDGC. Yr Amgylchedd Naturiol.

OFFER
Cardiau lliw
Mygydau
Amrywiaeth o allweddi adnabod
Pot casglu
Sbienddrych

PWYNTIAU DIOGELWCH

Gwnewch yn siwr nad yw'r grŵp wedi cynhyrfu gormod cyn cychwyn.
Tynnwch sylw at beryglon rhedeg, llystyfiant, tyllau cwningod, pyllau etc.

GWEITHGAREDDAU CYN CYCHWYN
Soniwch yn fyr am hanes y safle y byddwch yn edrych arno gyda'r plant.

- Tir yr ysgol – pryd gafodd ei ddatblygu? Beth oedd yno cynt? Sut mae'n cael ei gynnal?
- Gwarchodfeydd natur ac ardaloedd eraill – beth yw'r hanes? Beth yw'r defnydd ohonynt bellach?

Gofynnwch i'r plant geisio rhagweld beth fyddant yn ei weld yn yr awyr agored. Eglurwch bod arsylwi'n allweddol a bod raid iddynt gofio edrych o'u cwmpas drwy'r amser. Gwiriwch eu sgiliau arsylwi. Gosodwch nifer o wrthrychau bychain (er enghraifft, pryfed cop plastig) o amgylch yr ysytafell a holwch faint maent yn gallu eu gweld o'u sedd.

Y PRIF WEITHGAREDD

Mae'r llwybr darganfud yn cynnwys nifer o weithgareddau y gellir cymryd rhan ynddynt mewn unrhyw drefn, yn dibynnu ar y safle a ddefnyddir gennych.

1. Eisteddwch mewn safle tawel a dysgwch y plant i ddefnyddio'r sbienddrych. Cymerwch amser i edrych ar yr amgylchedd o'ch cwmpas. A yw'n ddiwydiannol? Beth maent yn ei weld? Siopau, ffatrïoedd, safleoedd claddu sbwriel etc. neu gefn gwlad yn llawn coed, pyllau, glaswellt etc? Treuliwch 10 munud yn eistedd yn dawel yn gwylio'r adar. Sawl aderyn welwch chi? Beth maent yn ei wneud? Creu nythod, cael hyd i gymar, amddiffyn tiriogaeth?
2. Creu Nythod. Gofynnwch i'r grŵp weithio mewn parau, gan actio fel adar a chreu nyth. Cofiwch mai pig sydd gan bob aderyn ac felly dim ond eu bys a'u bawd ddylai'r plant eu defnyddio. Ni allant siarad, dim ond crawcian. Wedi iddynt orffen, gall yr athro ddyfarnu pwyntiau am y nyth orau. Gellir dyfarnu pwyntiau am y nyth fwyaf cyfforddus, y daclusaf, yr un fwyaf real etc.
3. Cwrdd â choeden. Gan weithio mewn parau, mae un person yn gwisgo mwgwd ac mae ei bartner yn ei arwain yn ofalus at goeden. Mae'r person mewn mwgwd yn gorfod dod i adnabod ei goeden drwy ei harogli a'i theimlo a thrwy gydio ynddi. Yna bydd y partner yn ei arwain yn ôl i'r dechrau. Unwaith mae wedi tynnu ei fwgwd, bydd raid iddo weld a fydd yn gallu cael hyd i'r goeden eto.
4. Synau. Mae pawb yn cau eu llygaid am 1 munud (neu 30 eiliad, gan ddibynnu ar y grŵp). Treulir yr amser yn gwbl dawel, yn cyfrif faint o wahanol synau a glywir. Faint o'r synau hyn sy'n naturiol a faint sydd o wneuthuriad dyn?

5. Lliwiau. Gan ddefnyddio'r cerdyn lliw, ceisiwch gael hyd i gymaint ag y gallwch chi yn yr amgylchedd naturiol.

GWEITHGAREDDAU DILYNOL

Casglwch amrywiaeth o wrthrychau naturiol, yn cynnwys:

- Penglogau
- Concers, bonion, dail etc
- Nythod adar
- Lluniau o adar
- Tail anifeiliaid gwyllt

Mewn grwpiau bychain, treuliwch amser yn edrych ar yr arteffactau ac yn canfod beth yw pob eitem ac o ble maent wedi dod.